Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Canllawiau Ymarfer Aml-Asiantaeth ar gyfer Ymdrin ag Achosion o Gam-drin Domestig i Ddiogelu Oedolion ag Anghenion Gofal a Chymorth



**Cymeradwywyd gan y Bwrdd**
**Medi 2026**

**Grŵp Protocolau a Gweithdrefnau**

**Dyddiad Adolygu:**
**Medi 2029**

## Cynnwys

**TUDALEN**


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Diben | 5 |
| 3 | Amcanion | 5 |
| 4 | Rhannu Gwybodaeth | 6 |
| 5 | Effeithiau Cam-drin Domestig | 7 |
| 6 | Cyfrifoldebau'r Heddlu | 8 |
| 7 | Awdurdodau Lleol | 10 |
| 8 | Asesu a Rheoli Risg | 12 |

**Atodiad 1:**

Diffiniadau 15

**Atodiad 2:**

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data/Rhannu Gwybodaeth 17

**Atodiad 3:**

Asesu Risg a Llwybrau Atgyfeirio 23

# 1. CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ychwanegol i gynorthwyo Heddlu Gwent, yr Awdurdodau Lleol a, lle bo'n briodol, gwasanaethau iechyd i gydweithio i fynd i'r afael â materion Cam-drin Domestig lle maent yn effeithio ar oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth. “Gall cam-drin domestig ddigwydd rhwng unigolion 16 oed neu’n hŷn sydd â chysylltiad personol, gan gynnwys y rhai mewn perthynas agos â phartner neu berthynas deuluol, fel gyda phlant neu wyrion. Gall unrhyw unigolyn ei gyflawni, waeth beth yw eu rhywedd.” (Fel y'i diffinnir yn Neddf Cam-drin Domestig 2021, Rhan 1, Adrannau 1–2:legislation.gov.uk)

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, dylid cyfeirio pryderon diogelu at adrannau gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol gan mai nhw sydd â’r cyfrifoldeb dros gytuno bod angen cynnal ymholiadau o dan Ddyletswydd Adran 126. Os oes angen ymholiadau Adran 126, gall yr awdurdod lleol gynnal yr ymholiadau neu ei gwneud yn ofynnol i asiantaeth/gwasanaeth mwy priodol gynnal yr ymholiadau ar eu rhan e.e., os yw trosedd wedi'i chyflawni neu os yw'n ymddangos ei bod wedi'i chyflawni, bydd yr Heddlu'n cynnal ymchwiliad troseddol, gall asiantaethau/gwasanaethau eraill gyfrannu at y broses i sicrhau bod dyletswyddau Adran 126 yn cael eu cyflawni.

Mae egwyddor ymholi diogel yn ganolog i weithio gyda'r rhai sydd angen gofal a chymorth sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, trais rhywiol a rheolaeth drwy orfodaeth. Bydd angen i Awdurdodau Lleol ystyried barn y dioddefwr os pennir bod ganddynt y galluedd i wneud y penderfyniad, ac nad ydynt dan orfodaeth. Gallai hyn arwain at wrthod cydsyniad i rannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill; yn yr amgylchiadau hyn, dylid ymgynghori ynghylch y sefyllfa gyda'r Heddlu yn unig i hysbysu asesiad risg yr Arweinwyr Diogelu Dynodedig (DSL) os credir bod trosedd wedi'i chyflawni ar yr adeg y caiff y pryder ei adrodd.

Yr oedolyn sy’n wynebu risg: Mae dyletswyddau diogelu yn berthnasol i oedolyn sydd: ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio) ac sy'n profi, neu mewn perygl o brofi, cam-drin neu esgeulustod; ac o ganlyniad i'r anghenion gofal a chymorth hynny nid yw'n gallu amddiffyn ei hun rhag naill ai'r risg neu'r profiad o gam-drin neu esgeulustod.

Canllawiau Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## Pwy allai gael ei ystyried ar gyfer ymholiadau statudol ac anstatudol?

Gallai hyn gynnwys pobl ag anableddau dysgu, problemau iechyd meddwl, pobl hŷn, a phobl ag anabledd neu nam corfforol. Gallai hefyd gynnwys oedolion sy'n ddioddefwyr arferion gofal camdriniol (a allai gynnwys gofal a ddarperir gan bartneriaid, aelodau o'r teulu, gweithwyr proffesiynol, neu eraill); esgeulustod a hunan-esgeulustod; cam-drin domestig; trais rhywiol; troseddau casineb; anffurfio organau cenhedlu benywod; priodas dan orfod; caethwasiaeth fodern; masnachu mewn pobl ac ymddygiad cam-drin gwrthgymdeithasol. Gallai hefyd gynnwys unigolyn a allai fod yn agored i niwed o ganlyniad i'w rôl fel gofalwr i'r oedolyn sy'n wynebu risg mewn

perthynas ag unrhyw un o'r uchod.

Gallai angen oedolyn am gymorth ychwanegol i amddiffyn ei hun gynyddu pan gaiff ei gymhlethu gan ffactorau ychwanegol, fel eiddilwch corfforol neu salwch cronig, nam ar y synhwyrau, ymddygiad heriol, problemau cyffuriau neu alcohol, problemau cymdeithasol neu emosiynol, tlodi neu ddigartrefedd ac mae'n bwysig nodi y gall y graddau y mae rhywun yn agored i niwed amrywio.

## Deddfwriaeth

Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys Deddf Cam-drin Domestig 2021 a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Mae **cam-drin domestig**, fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cam-drin Domestig 2021, yn cyfeirio at ymddygiad person (“A”) tuag at berson arall (“B”) sy'n gamdriniol, lle mae'r ddau unigolyn yn 16 oed neu'n hŷn ac y mae ganddynt gysylltiad personol â'i gilydd. Ystyrir bod ymddygiad yn gamdriniol os yw'n cynnwys unrhyw un o'r canlynol:

- camdriniaeth gorfforol neu rywiol
- ymddygiad treisgar neu fygythiol
- ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol
- cam-drin economaidd (h.y., ymddygiad sy'n effeithio'n sylweddol ar allu B i gael, defnyddio neu gadw arian, eiddo, nwyddau neu wasanaethau)
- cam-drin seicolegol, emosiynol neu gam-drin arall

Nid yw'n berthnasol a yw'r ymddygiad yn cynnwys un digwyddiad neu batrwm o ymddygiad. Mae'r Ddeddf hefyd yn cydnabod cam-drin a gyfeirir at berson arall (e.e., plentyn) fel cam-drin tuag at B.Yn ogystal, cydnabyddir cam-drin ar ôl gwahanu, ac nid oes angen i'r unigolion fod mewn perthynas nac yn dal i fyw gyda'i gilydd.

Gweler Atodiad 1 am restr o dermau a diffiniadau allweddol, fel –‘ymddygiad gorfodaethol,’ ‘cysylltiad personol,’ ac ati.

## Stelcio neu aflonyddu mewn digwyddiadau cam-drin domestig

Mae stelcio yn golygu patrwm o ymddygiad ailadroddus a digroeso sy'n achosi i ddioddefwyr deimlo'n ofidus neu'n ofnus. Gall dynion neu fenywod ei gyflawni. Mae'n thema sy'n codi dro ar ôl tro mewn llawer o lofruddiaethau domestig, ac mae'n awgrymu risg uchel o niwed a llofruddiaeth.

Yn aml, mae stelcio yn cael effaith emosiynol enfawr ar y rhai sy’n cael eu stelcio. Gall arwain at deimladau o iselder, pryder a hyd yn oed anhwylder straen wedi trawma. Mae'n drosedd seicolegol yn ogystal â chorfforol.

Gall stelcio fod yn uniongyrchol; drwy ddilyn neu fynd wyneb yn wyneb â’r dioddefwr.

Gellir ei gyflawni dros y ffôn, drwy'r post neu ar-lein hefyd. Gallai fod yn anuniongyrchol; wedi'i hwyluso trwy drydydd partïon gan gynnwys teulu, cydweithwyr a chysylltiadau gwaith.

Gall ymchwiliadau i gam-drin domestig gynnwys troseddau tebyg i aflonyddu ac i'r gwrthwyneb. Gall aflonyddu fod yn rhan uniongyrchol o'r cam-drin domestig neu gall ddigwydd oherwydd gweithredoedd pobl sy'n gysylltiedig â'r camdriniwr.

Os ymddengys bod stelcio yn digwydd, mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei nodi a'i drin yn briodol. Rhaid cynnal ymateb diogelu uwch ynghyd ag ymyrraeth brydlon, gadarn ac effeithiol gyda'r cyflawnwr.

Ym mhob achos o stelcio, dylai'r Swyddog Arweiniol ystyried gorchymyn Diogelu rhag Stelcio a bydd y Swyddog Gorchmynion Sifil yn darparu goruchwyliaeth. Gellir ystyried a oes angen gorchymyn Diogelu rhag Stelcio, a gallai'r Heddlu ystyried gosod amodau mechnïaeth llym, lle rhoddir mechnïaeth. Os daw ymholiad i law, gellir ceisio cyngor drwy Dîm Cam-drin Domestig a Diogelu Heddlu Gwent. Dylai Ymchwilwyr yr Heddlu sicrhau bod erlynwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron yn mynd ati i roi gorchymyn atal yn dilyn euogfarn neu ryddfarn yn y llys.

Pan nodir dioddefwyr stelcio neu aflonyddu mewn digwyddiad domestig, bydd offeryn asesu risg priodol yn cael ei ddefnyddio (er enghraifft DASH, DARA). Mae hyn er mwyn cael dealltwriaeth fwy llawn o amgylchiadau'r dioddefwr er mwyn diogelu ac ymyrryd yn briodol. Er mwyn sicrhau cymhwysedd a chysondeb, dylai ymarferwyr sy'n defnyddio offeryn asesu risg o'r fath dderbyn hyfforddiant cynhwysfawr.

Mae cyngor a chymorth i'r rhai sydd wedi bod yn ddioddefwyr stelcio neu aflonyddu, neu wedi ymwneud ag ymddygiadau o'r fath, ar gael yn yr adran adnoddau.

## 2. DIBEN

Nod y canllaw ymarfer hwn yw nodi arferion cydweithio effeithiol ar gyfer pob asiantaeth pan fydd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, trais rhywiol a rheolaeth drwy orfodaeth yn effeithio ar oedolyn sy'n wynebu risg.

Diben y canllaw ymarfer hwn yw nodi safon gwasanaeth gofynnol pan fydd angen cymorth ar oedolyn sy'n wynebu risg i'w amddiffyn rhag trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, trais rhywiol a rheolaeth dan orfodaeth, ac i nodi rhwydweithiau cymorth priodol.

## 3. AMCANION

### Amcanion y canllaw ymarfer hwn yw:

a) Darparu arweiniad i bob asiantaeth er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut i ymateb i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, trais rhywiol a rheolaeth drwy orfodaeth.

b) Darparu canllawiau sy'n galluogi asiantaethau i gymhwyso dull ac ymateb cyson i'r achosion hyn, sy'n cynnwys rhannu gwybodaeth, sicrhau bod achosion o bryder yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth priodol, ac ystyried mesurau diogelwch parhaus.

c) Cynnwys egwyddorion Llesiant fel y'u disgrifir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a bod yn gyson â Gweithdrefnau Diogelu Cymru (gweler yma Diogelu Cymru)

## 4. RHANNU GWYBODAETH

**Dylid darllen y canllaw ymarfer hwn ar y cyd â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018). Mae rhagor o wybodaeth yma Diogelu data: Deddfwriaeth diogelu data y Deyrnas Unedig. Mae Atodiad 2 yn cynnwys rhagor o wybodaeth ynghylch y darpariaethau hyn.**

Mae tystiolaeth yn dangos yn gyson bod rhannu gwybodaeth yn elfen hanfodol o weithio mewn partneriaeth a diogelu llwyddiannus. Wrth weithio gydag oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth, dylid ceisio caniatâd yr oedolyn ei hun cyn rhannu gwybodaeth, ar yr amod y pennwyd eu bod yn gymwys.

Mae'n bwysig bod ymarferwyr mor dryloyw â phosibl gydag unigolion ynghylch pa wybodaeth a fydd yn cael ei rhannu, pam hynny a gyda phwy. Profwyd bod hyn yn gwella ymgysylltiad â'r broses ddiogelu ac yn hyrwyddo perthnasoedd gwaith cadarnhaol. Dylai ymarferwyr geisio cydsyniad i rannu gwybodaeth, oni bai ei bod yn cael ei hystyried yn anniogel gwneud hynny.

Os bydd pryderon diogelu, **nid** oes angen cydsyniad er mwyn rhannu gwybodaeth. Ni ddylid ystyried diffyg cydsyniad fel rhwystr rhag gwneud atgyfeiriad, a'r ystyriaeth bwysicaf yw buddiannau'r unigolyn. Os na roddir cydsyniad ond ystyrir bod yr unigolyn yn dioddef neu mewn perygl o niwed sylweddol, gellir rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, ond dylid hysbysu'r unigolyn y bydd hyn yn digwydd, oni bai y byddai gwneud hynny'n cynyddu'r risg o niwed. Nid oes angen ceisio cydsyniad os byddai gwneud hynny:

• Yn cynyddu'r risg o roi'r oedolyn, neu unrhyw un arall, mewn perygl o niwed,
• Yn peryglu ymchwiliad troseddol, neu
• Yn achosi oedi gormodol wrth gymryd camau i amddiffyn yr oedolyn neu unrhyw unigolion eraill e.e. plant/aelodau o'r teulu.

Yn ogystal, mae yna adolygiadau wedi bod yn ddiweddar sy'n pwysleisio galluedd meddyliol a'r defnydd ohono weithiau i gyfiawnhau diffyg gweithredu mewn sefyllfaoedd penodol. Y 'neges' gyfredol yw bod yn rhaid i ymarferwyr ystyried y risgiau posibl o beidio â rhannu gwybodaeth a sicrhau eu bod yn cofnodi eu rhesymeg dros beidio â rhannu; ac yn strategol ac ar y rheng flaen, mae angen llawer o ofal wrth wneud hynny. Mae'n hanfodol bod ymarferwyr yn deall bod egwyddorion Diogelu Oedolion a Phlant yn cymryd blaenoriaeth dros gyfrinachedd. Mae rhagor o

wybodaeth ynghylch galluedd yn Atodiad 2.

Os caiff gwybodaeth ei rhannu, bydd angenrheidrwydd, perthnasedd, cywirdeb, amseroldeb a diogelwch y wybodaeth a rennir yn cael eu cofnodi. Os na cheir cydsyniad, bydd ymarferwyr yn cofnodi pam y barnwyd bod diogelwch yr unigolyn mewn perygl neu pam nad oedd yn briodol ceisio cydsyniad.

I gael gwybodaeth fanylach am rannu gwybodaeth, gweler Atodiad 2.

## 5. EFFEITHIAU CAM-DRIN DOMESTIG AR OEDOLION AG ANGHENION GOFAL A CHYMORTH

Mae'n bwysig cydnabod y gall oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth fod yn ddioddefwyr cam-drin domestig eu hunain, gan gynnwys trais rhywiol a rheolaeth drwy orfodaeth, neu brofi ei effaith pan fydd yn digwydd yn eu cartref. Mae hyn yn debygol o gael effaith ddifrifol ar eu llesiant corfforol a meddyliol.

Mae ymchwil Spotlight #2: Pobl anabl a cham-drin domestig | Safelives wedi cael ei chynnal gyda menywod yn bennaf, ac mae'r canfyddiadau'n dangos bod anabledd yn cael effaith fawr ar natur, graddau ac effaith y cam-drin. Mae'n arbennig o acíwt pan mai'r partner sy'n cam-drin yw'r gofalwr hefyd; mae gan y gofalwr bŵer a rheolaeth sylweddol, ac mae'r dioddefwr yn dibynnu arnynt. Er y cydnabyddir bod gofalwyr weithiau dan bwysau, ni ddylid defnyddio hyn i gyfiawnhau trais neu gam-drin lle nodwyd bod pŵer a rheolaeth dros yr oedolyn. Mae ymchwil ac ystadegau mwy diweddar sy'n ategu hyn hefyd ar gael yma: Mae pobl anabl bron deirgwaith yn fwy tebygol o brofi cam-drin domestig na phobl nad ydynt yn anabl, yn ôl astudiaeth - Community Care

Yn yr un modd ag oedolion iau, gall pobl hŷn ddioddef cam-drin domestig sy'n gorfforol, yn rhywiol, yn emosiynol neu'n economaidd. Bydd troseddwyr yn defnyddio amrywiaeth o ymddygiadau i arfer pŵer a rheolaeth ac i ennyn ofn mewn dioddefwyr. Mae hefyd yn bwysig nodi bod gwahaniaethau penodol sy'n gysylltiedig ag oedran sy'n effeithio'n benodol ar ddioddefwyr-oroeswyr wrth iddynt heneiddio. Er enghraifft, mae pobl hŷn yr un mor debygol o brofi cam-drin gan eu plentyn sy'n oedolyn a/neu ŵyr/wyres ag y maent gan briod neu bartner. Mae hyn hefyd yn golygu bod dynion mewn mwy o berygl o ddioddef cam-drin domestig wrth iddynt heneiddio. Gallai llawer o bobl hŷn sy'n profi cam-drin fod â chyflwr iechyd neu anabledd hefyd, a allai olygu eu bod yn fwy agored i niwed gan eu bod yn dibynnu ar eu camdriniwr am ofal a chymorth.

Pan fo oedolion sy'n agored i risg yn ddioddefwyr cam-drin domestig, gan gynnwys trais rhywiol, stelcio a/neu ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol; efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt i gynllunio diogelwch a chynllunio'u dyfodol. Gall y cam-drin neu'r bygythiad o gam-drin barhau ar ôl i ddioddefwr wahanu oddi wrth y camdriniwr (a allai gynnwys aelodau'r teulu yn ogystal â phartneriaid agos). Mae'n bwysig sicrhau bod gan bob oedolyn sy'n wynebu risg yn y sefyllfa hon gymorth priodol

i'w galluogi i gynnal eu diogelwch personol.

Lle nodir achos o gam-drin domestig, dylid ystyried hefyd a oes gan y troseddwr unrhyw anghenion gofal a chymorth, anabledd neu broblem galluedd a allai fod yn cyfrannu at y digwyddiadau o drais neu gam-drin domestig. Dylai hyn gynorthwyo ymarferwyr i fynd i'r afael ag anghenion yr oedolyn sy'n wynebu risg mewn sefyllfa o gam-drin domestig neu drais.

**Gellir ymgynghori a cheisio cyngor gan hybiau diogelu a'r sector arbenigol. Gweler yr adran adnoddau isod.**

## 6. CYFRIFOLDEBAU'R HEDDLU

Bydd Heddlu Gwent yn gweithio gyda phartneriaid aml-asiantaeth i sicrhau mai'r blaenoriaethau pennaf wrth ddelio â phob digwyddiad o gam-drin domestig yw:

a) Amddiffyn bywydau oedolion a phlant sydd mewn perygl o gam-drin domestig.

b) Sicrhau diogelwch a chyfeirio at adnoddau cymorth cenedlaethol a lleol ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig.

c) Cofnodi pob digwyddiad o gam-drin domestig.

d) Hwyluso camau effeithiol yn erbyn troseddwyr fel y gellir eu dwyn i gyfrif drwy'r system cyfiawnder troseddol.

e) Nid yw cam-drin domestig yn drosedd benodol. Defnyddir y term i ddisgrifio ystod o ddigwyddiadau sy'n digwydd mewn amgylchiadau penodol, a gall y dioddefwyr, yn ogystal â'r troseddwr, fod o unrhyw rywedd ac o unrhyw grŵp ethnig. Bydd Heddlu Gwent yn ymateb i bob dioddefwr cam-drin domestig fel y gallant dderbyn gwasanaeth o ansawdd priodol yn ôl eu hanghenion unigol. Byddant yn ymchwilio i bob honiad yn briodol, a bydd y troseddwyr yn cael eu dwyn i gyfrif drwy'r system cyfiawnder troseddol.

f) Ystyried hysbysiad/gorchymyn amddiffyn rhag trais domestig os bodlonir y meini prawf.

Yn dilyn adroddiad am ddigwyddiad cam-drin domestig, cyfrifoldeb Heddlu Gwent yw rhannu eu pryderon gydag asiantaethau partner. Pan nodir bod gan y dioddefwr anghenion gofal a chymorth, bydd yr oedolion hynny y pennir eu bod mewn perygl yn cael eu cyfeirio drwy'r hyb diogelu ar unwaith.

Gwneir adroddiad (PPN) i'r Awdurdodau Lleol (Gweler 1.2) ym mhob achos:

- Lle credir bod oedolyn sy'n wynebu risg a/neu blant cysylltiedig yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol

- Lle credir bod angen mwy o wasanaethau cymorth ar oedolyn sy'n wynebu risg a/neu blant

Os oes unrhyw ansicrwydd ynghylch yr angen am adroddiad, gellir ymgynghori â Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol perthnasol.

Os rhoddir caniatâd, gellir rhannu'r PPN, gan gynnwys y DASH/DARA, gyda'r sector arbenigol hefyd, ac os caiff ei nodi fel risg uchel, dylid ei rannu gyda'r Gwasanaeth IDVA.

Mewn achosion lle mae'r unigolyn yn feichiog, dylid rhannu'r PPN gyda'r fydwraig dan sylw hefyd, ac os oes plentyn o dan 5 oed yn gysylltiedig â'r unigolyn, dylid rhannu'r PPN gyda'r gwasanaethau iechyd.

**Hysbysiadau/Gorchmynion Amddiffyn rhag Trais Domestig (DVPN) (DVPO)**

Mae Gorchmynion Amddiffyn rhag Trais Domestig (DVPOs) wedi'u cynllunio i ddarparu diogelwch tymor byr ac amser i ddioddefwyr anadlu yn dilyn digwyddiad domestig sy'n cynnwys trais neu fygythiadau o drais. Gallant atal troseddwr rhag dychwelyd i gartref y dioddefwr neu gysylltu â nhw am hyd at 28 diwrnod, gan roi amser i'r dioddefwr geisio cymorth, ystyried opsiynau hirdymor, ac ymgysylltu ag asiantaethau. Mae'r cyfnod hwn yn hollbwysig, gan fod dioddefwyr yn aml yn wynebu'r perygl mwyaf pan fyddant yn ceisio gadael neu'n ceisio cymorth.

**Y dull a ffefrir yng Ngwent**

Yr opsiwn a ffefrir yw arestio'r troseddwr ac ymchwilio i unrhyw honiadau troseddol. Fodd bynnag, os nad oes digon o dystiolaeth i gyhuddo, gellir cyhoeddi Hysbysiad Amddiffyn rhag Trais Domestig (DVPN) i osod mesurau amddiffynnol ar unwaith. Mae hyn yn sicrhau diogelwch dioddefwyr trwy gyfyngiadau tebyg i amodau mechnïaeth. Gellir dilyn y broses DVPN heb gymorth y dioddefwr, neu hyd yn oed yn groes i'w dymuniadau, os ystyrir bod hyn yn angenrheidiol i'w hamddiffyn rhag trais neu fygythiad o drais. Nid oes rhaid i'r dioddefwr fod yn y llys chwaith. Gall hyn helpu drwy dynnu'r cyfrifoldeb am gymryd camau yn erbyn eu camdriniwr oddi ar y dioddefwr.

I ddechrau, gallai'r Heddlu gyflwyno DVPN, ac yna mae'n rhaid gwneud cais i'r llys am DVPO o fewn 48 awr. Os bydd y llys yn cyhoeddi DVPO, gall fod mewn grym am isafswm o 14 diwrnod hyd at uchafswm o 28 diwrnod, gan ddechrau ar y dyddiad y caiff ei gyhoeddi gan lys yr ynadon.

Dylid rhoi gwybod i'r Heddlu am achosion o dorri'r DVPN. Gall swyddogion heddlu arestio person sydd wedi cael DVPN heb warant os oes sail resymol dros gredu bod y troseddwr yn torri'r DVPN. Rhoddir ystyriaeth i gyflawni troseddau pellach a allai arwain at arestio'r sawl a ddrwgdybir a'i wneud yn destun ymchwiliad am y troseddau pellach hyn hefyd.

Mae pŵer i arestio mewn achosion o dorri DVPO. Felly, dylid rhoi gwybod am unrhyw achosion o dorri'r gorchymyn i'r heddlu sydd â'r pŵer i arestio a gosod y sawl a ddrwgdybir gerbron llys ynadon. Mae torri DVPO yn torri gorchymyn sifil y llys. Y gosb am dorri gorchymyn sifil yw £50 am bob diwrnod y mae'r person yn mynd yn groes i'r

gorchymyn, hyd at uchafswm o £5000 neu ddeufis o garchar. Rhoddir ystyriaeth i gyflawni troseddau pellach a allai arwain at arestio'r sawl a ddrwgdybir a'i wneud yn destun ymchwiliad am y troseddau pellach hyn hefyd.

**Cynllun Datgelu Trais Domestig (DVDS) (Cyfraith Clare).**

Nod y cynllun hwn yw rhoi mecanwaith ffurfiol i aelodau'r cyhoedd wneud ymholiadau am unigolyn y maent mewn perthynas â nhw, neu sydd mewn perthynas â rhywun maent yn ei adnabod, lle mae pryder y gallai fod gan yr unigolyn hanes o gam-drin.

Dylai pob ymarferydd fod yn ymwybodol o bwrpas cynllun DVDS (Cyfraith Clare) a chynorthwyo unigolion i wneud cais i'r Heddlu am ddatgeliad, lle bo'n briodol.

Os yw gwiriadau'r Heddlu yn dangos bod gan yr unigolyn gofnod o droseddu camdriniol, neu os oes gwybodaeth arall i ddangos bod y person rydych chi'n ei adnabod mewn perygl, bydd yr Heddlu'n ystyried rhannu'r wybodaeth hon gyda'r unigolyn/unigolion sydd yn y sefyllfa orau i amddiffyn y dioddefwr posibl. Gall unrhyw drydydd parti dan sylw, fel rhiant, cymydog, ffrind neu weithiwr proffesiynol wneud cais, nid dim ond y dioddefwr posibl.

Nid y trydydd parti sy'n gwneud cais fydd o reidrwydd yn cael y wybodaeth am yr unigolyn dan sylw. Efallai y byddai'n fwy priodol i rywun arall gael y wybodaeth, fel y dioddefwr posibl neu berson arall sydd yn y sefyllfa orau i amddiffyn y dioddefwr posibl, os ystyrir eu bod yn oedolyn sy'n wynebu risg. Os yw oedolyn sy'n wynebu risg yn agored i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yna dylid defnyddio proses wirio arferol yr Heddlu.

## 7. AWDURDODAU LLEOL

Ym mhob sefyllfa o Gam-drin Domestig, rhaid i awdurdodau lleol weithio i gynorthwyo a helpu oedolion sy'n wynebu risg ac ystyried rhannu gwybodaeth ag asiantaethau neu wasanaethau eraill i gynorthwyo ac amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg. Rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried camau cymesur i ddiogelu oedolion sy'n wynebu risg er mwyn eu hamddiffyn rhag cam-drin domestig, yn enwedig lle gallai hyn arwain at niwed sylweddol iddyn nhw'u hunain neu i oedolion eraill sydd ag anghenion gofal a chymorth a phlant.

Yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, cyfrifoldeb yr Unigolyn Diogelu Dynodedig (DSP) yn yr awdurdodau lleol yw gwneud penderfyniad ynghylch pa gamau gweithredu a gymerir. Byddai hyn yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn dilyn asesiad risg o ddifrifoldeb y cam-drin.

Mae tri chanlyniad i ymholiadau. Cyfeirir at y rhain yn *Ymdrin ag Achosion Unigol* fel 'Penderfyniadau', sydd fel a ganlyn:

1. **Penderfyniad 1: Amddiffyn ar Unwaith.** Mae hyn yn digwydd pan fo rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, gwasanaethau iechyd neu frys ymateb

yn sydyn i ddiogelu'r oedolyn sy'n wynebu risg neu oedolion eraill/plant sydd mewn risg uniongyrchol.

2. **Penderfyniad 2: Nid yw'r oedolyn yn wynebu risg ond mae'n bosibl bod ganddo anghenion gofal a chymorth** Dylid rhoi gwybod i'r unigolyn fel y câi ei wneud ar gyfer unrhyw gyfeiriad arall, gan gydnabod y caiff y person ei gyfeirio o bosibl at asiantaethau neu wasanaethau eraill os yw'n briodol neu os bydd angen asesiad.
3. **Penderfyniad 3: Mae'r Oedolyn yn wynebu risg ac mae angen camau gweithredu i'w amddiffyn** (gweler yr adran berthnasol).

**Ar y cam hwn gellir gwneud penderfyniad nad oes angen camau pellach: nid yw'r oedolyn yn wynebu risg ac nid oes anghenion gofal a chymorth wedi eu nodi.**

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru yma:**

Diogelu Cymru

Nid yw penderfynu a yw oedolyn sy'n wynebu risg wedi cael ei gam-drin a/neu ei esgeuluso yn syml. Efallai y bydd angen barnu a oes gweithred neu anweithred wedi arwain at gam-drin neu esgeulustod. Mewn rhai achosion, gallai fod yn ailadrodd gweithredoedd neu anweithredoedd bach a fydd gyda'i gilydd yn gyfystyr â cham-drin neu esgeulustod. Mae Bwrdd Diogelu Gwent wedi datblygu canllawiau trothwy rhanbarthol y gellir eu defnyddio i gynorthwyo ymarferwyr i ddefnyddio eu crebwyll proffesiynol ynghylch anghenion diogelu oedolion. Mae'r canllawiau hyn i'w gweld yma Rhoi Gwybod Neu Beidio â Rhoi Gwybod - Canllawiau Diogelu Oedolion

Rhaid i'r asiantaeth gwasanaethau cymdeithasol wneud achos dros, neu fod ag achos i wneud unrhyw ymholiadau sy'n angenrheidiol i benderfynu beth sydd angen digwydd a phwy sydd angen ei wneud. Mae hyn yn ffurfio Ymchwiliad Adran 126 ffurfiol, i gynorthwyo â chyrraedd y penderfyniad hwn. Mae'n hanfodol bod ymholiadau o'r fath yn cael eu gwneud pan fo'r unigolyn yn ddiogel i ddatgelu a phan fyddant mewn sefyllfa na fydd yn cynyddu'r risg iddynt. Bydd angen i hyn gael ei asesu gan yr ymarferydd arweiniol.

Bydd yr ymholiadau canlynol yn cael eu cynnal: -

a) Safbwyntiau, dymuniadau, cydsyniad a galluedd (lle bo'n berthnasol) yr oedolyn sy'n wynebu risg ar ôl ffurfio cyswllt diogel a gwneud ymholiad.

b) Egluro terfynau eich cyfrinachedd (fel uchod).

c) Ystyried eiriolwr annibynnol priodol fel Eiriolwr Trais Domestig Annibynnol, Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol, Age Cymru, os ydynt yn profi anhawster yn deall y broses neu os ydynt yn ddioddefwyr cam-drin domestig.

d) Casglu gwybodaeth gan sefydliadau eraill. *Os nad yw'r oedolyn sy'n wynebu risg eisiau i asiantaethau eraill fod yn rhan o'r broses ond bod trosedd wedi'i datgelu, dylid ymgynghori â'r Heddlu i drafod ac ystyried sut i sicrhau bod yr oedolyn sy'n wynebu risg yn cael ei amddiffyn rhag cam-drin neu esgeulustod

wrth symud ymlaen.

e) Ystyried unrhyw gofnodion blaenorol neu gyfredol o gyswllt asiantaethau statudol â'r oedolyn sy'n wynebu risg ac unrhyw aelodau eraill o'r teulu, sy'n gymesur â'r ymholiad neu'r asesiad.

f) Dylai aelod hyfforddedig o staff neu, gyda chydsyniad, cymorth asiantaethau arbenigol lleol gyda'r oedolyn sy'n wynebu risg, gwblhau Rhestr Wirio Adnabod Risg o Gam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu (DASH) oni bai nad yw'n bosibl gwneud hynny. Fodd bynnag, rhaid defnyddio crebwyll proffesiynol, a gellir anfon adroddiad heb gydsyniad.

g) Atgyfeirio i'r Gynhadledd Aml-Asiantaeth Asesu Risg (MARAC) yn ôl yr angen gan DASH/DARA neu atgyfeirio i wasanaethau arbenigol eraill. Gweler Atodiad 3 am fanylion asesu risg a llwybrau atgyfeirio.

h) Cynllunio trafodaethau dros y ffôn neu gyfarfodydd sy'n cynnwys yr oedolyn sy'n wynebu risg a/neu'r sawl sy'n llunio'r adroddiad lle bo'n berthnasol.

i) Rhaid dogfennu'n briodol bob trafodaeth a phenderfyniad cynllunio.

j) Ymholi penodol gyda'r dioddefwr (h.y., Gofyn a Gweithredu).

O dan Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (Cymru) 2015, mae gan bob awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd ddyletswydd statudol i ddarparu hyfforddiant i'w gweithlu yn unol â Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol VAWDASV. Mae chwe grŵp wedi'u rhestru o fewn y Fframwaith ac mae lefel yr hyfforddiant sydd ei angen yn dibynnu ar natur rôl y gweithiwr a pha mor aml mae'n rhyngweithio â'r cyhoedd. Mae'r Fframwaith yn paratoi gweithwyr proffesiynol i adnabod, ymateb i ac atgyfeirio dioddefwyr cam-drin domestig, trais rhywiol ac arferion niweidiol, yn ogystal â chynorthwyo'r gwaith o adnabod a diogelu unigolion y gellir eu hystyried yn oedolion sy'n wynebu risg o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Dylai pob gweithiwr awdurdod lleol ac iechyd ymgymryd â hyfforddiant Grŵp 1 (e-ddysgu) fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu ac yna bob tair blynedd wedi hynny. Dylai pob aelod o staff rheng flaen gofal cymdeithasol ac iechyd gael eu hyfforddi yng Ngrŵp 2 hefyd. Dylid cwblhau hyn ar ôl Grŵp 1 gyda chwrs atgoffa bob dwy flynedd. Dylai staff sy'n cyfateb i uwch ymarferwyr, arweinwyr tîm neu reolwyr mewn gofal cymdeithasol ac iechyd (h.y., y rhai ag achosion cymhleth, cyfrifoldebau goruchwylio neu reoli) hefyd gwblhau hyfforddiant Grŵp 3, gyda'r hyfforddiant hwn yn cael ei adnewyddu bob dwy flynedd.

**Mae canllawiau pellach ynghylch ymholiadau ar gael yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru.**

Os bydd unrhyw anghytundeb rhwng gweithwyr proffesiynol ynghylch y penderfyniad, neu ynghylch cynnydd achos, dylid cyfeirio'r mater at Ganllaw Ymarfer Datrys Gwahaniaethau rhwng Ymarferwyr Gwent.

## 8. ASESU A RHEOLI RISG

### Dangosydd Risg Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu (DASH)

Dylai pob ymarferydd sydd â chysylltiad uniongyrchol ag oedolion sy'n wynebu risg gael eu hyfforddi i gwblhau rhestr wirio Dangosyddion Risg Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu (DASH) lle nodir bod oedolyn sy'n wynebu risg mewn sefyllfa cam-drin domestig. Mae'r offeryn DASH ar gyfer pob asiantaeth sy'n gweithio gyda dioddefwyr cam-drin domestig, stelcio, aflonyddu a cham-drin ar sail anrhydedd, a gellir dod o hyd iddo yma Rhestr Wirio Asesu Risg DASH/Safe Lives.

Dylai ymarferwyr geisio arweiniad gan y rheolwyr, yr hwb diogelu neu'r tîm VAWDASV rhanbarthol os nad ydynt yn gyfarwydd â'r broses.

### Asesiad Risg Cam-drin Domestig (DARA)

Bydd Heddlu Gwent yn defnyddio'r Asesiad Risg Cam-drin Domestig (DARA) fel eu hofferyn asesu risg safonol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: Asesiad Risg Cam-drin Domestig (DARA): Rhesymeg dros ddatblygu, strwythur a chynnwys

### Cynhadledd Aml-Asiantaeth Asesu Risg (MARAC)

.
Dylid atgyfeirio pob dioddefwr risg uchel i'r Gynhadledd Aml-Asiantaeth Asesu Risg (MARAC). Mae risg ym maes cam-drin domestig yn ddeinamig a gall newid yn gyflym, ac felly dylid ei monitro'n aml.

Rôl MARAC yw hwyluso, monitro a gwerthuso prosesau rhannu gwybodaeth yn effeithiol er mwyn galluogi camau priodol i gael eu cymryd i gynyddu diogelwch y cyhoedd.

Dylai ymarferwyr ar draws pob asiantaeth gael hyfforddiant i lefel sy'n unol â'u rôl a'u cyfrifoldebau, wrth gwblhau'r offeryn asesu risg DASH/DARA ac i ddeall y meini prawf ar gyfer adrodd i MARAC. Dylai ymarferwyr wneud atgyfeiriadau priodol yn seiliedig ar y risg a nodwyd gyda chymorth barn broffesiynol ac ar gwblhau DASH/DARA. Mae canllawiau ar MARAC a gwneud atgyfeiriadau ar gael yma:

Rhaid i wasanaethau cymdeithasol i oedolion ym mhob Awdurdod Lleol enwebu un pwynt cyswllt i gynrychioli'r broses MARAC. Dylai pob aelod o staff yn eu hasiantaeth wybod pwy yw eu cynrychiolwyr MARAC.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys gwneud atgyfeiriad i MARAC, ar gael isod:

- Protocol MARAC Gwent
- Ffurflen Atgyfeirio MARAC Gwent
- Ffurflen rhannu gwybodaeth heb gydsyniad
- MARAC Gwent - canllawiau ar gyfer cwblhau

## Cynghorydd Annibynnol ar Gam-drin Domestig (IDVA)

Mae cynghorwyr IDVA yn gweithio gyda dioddefwyr sydd mewn risg uchel o niwed gan bartner, cyn-bartner neu aelod(au) o'r teulu. Yng Ngwent mae yna wasanaeth IDVA rhanbarthol sy'n rhan o fframwaith aml-asiantaeth cysylltiedig, sy'n rhan o broses y Gynhadledd Aml-Asiantaeth Asesu Risg (MARAC).

Mae'r IDVA yn gweithredu fel y prif bwynt cyswllt i'r dioddefwr, gan weithio gyda nhw fel arfer o adeg yr argyfwng ymlaen, gan helpu i roi camau gweithredu MARAC ar waith, a darparu cymorth ar gyfer amrywiaeth o faterion, gan gynnwys mynd gyda chleientiaid i'r llys.

### Cynllunio Diogelwch

Bydd gweithwyr cam-drin domestig arbenigol yn cynorthwyo pobl i ddatblygu cynllun diogelwch unigol. Maent yn cynorthwyo dioddefwyr i ystyried sut y gallant gymryd camau mewn ffordd ddiogel, gan edrych ar ba mor agored i niwed y gallent fod a sut gallant gynyddu eu diogelwch (a diogelwch eu plant).
Mae cynlluniau diogelwch wedi'u teilwra i amgylchiadau'r unigolyn; maent yn edrych yn ehangach na diogelwch corfforol yn unig, ac yn ystyried diogelwch tymor byr a thymor hir.

- Protocol MARAC Gwent
- I weld gwybodaeth am DASH, MARAC a hyfforddiant arall a gynigir gan y Tîm Rhanbarthol VAWDASV yng Ngwent, gweler yma Prynu tocynnau – VAWDASV Gwent
- I gael gwybodaeth ychwanegol am asesu risg, DASH, IDVA: www.safelives.org.uk

# Atodiad 1: Diffiniadau

Mae'r diffiniadau isod yn cyd-fynd â Deddf Cam-drin Domestig 2021.

## Ymddygiad Rheolaethol

Mae ymddygiad rheolaethol yn golygu **patrwm o weithredoedd wedi'u cynllunio i wneud i unigolyn fod yn israddol a/neu'n ddibynnol** drwy:

- **Ynysu** yr unigolyn oddi wrth ffynonellau cymorth (e.e., teulu, ffrindiau, gwasanaethau).
- **Ecsbloetio** eu hadnoddau a'u galluedd er budd personol.
- **Amddifadu**'r dioddefwr o'r moddion sydd eu hangen ar gyfer annibyniaeth, gwrthsefyll a dianc.
- **Rheoleiddio** eu hymddygiad bob dydd (e.e., monitro symudiadau, gorchymyn eu gweithgareddau dyddiol).

Mae'r ymddygiad hwn yn cael ei gydnabod o dan **Ddeddf Cam-drin Domestig 2021** ac mae'n drosedd pan gaiff ei gyflawni mewn perthynas agos neu deuluol. Yn aml, mae'n rhan o batrwm ehangach o gam-drin, gan gynnwys ymddygiad gorfodaethol, a gall gynnwys bygwth, cywilyddio, brawychu, a cham-drin arall gyda'r bwriad o niweidio neu ddychryn y dioddefwr.

## Ymddygiad gorfodaethol

Mae ymddygiad gorfodaethol yn golygu patrwm o weithredoedd o ymosod, bygwth, cywilyddio, brawychu, neu fath arall o gam-drin a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu ddychryn dioddefwr. Ei fwriad yw arfer pŵer a rheolaeth dros berson arall mewn perthynas agos neu deuluol.

Pwyntiau allweddol o dan Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 a Deddf Troseddau Difrifol 2015:

- Fe'i cydnabyddir fel math o gam-drin domestig ac yn drosedd.
- Rhaid i'r ymddygiad gael ei ailadrodd neu ei barhau, nid un digwyddiad ynysig.
- Yn aml mae'n cynnwys tactegau fel:
    - Bygwth niwed neu drais.
    - Cywilyddio neu israddio'r dioddefwr.
    - Eu brawychu neu eu dychryn i gydymffurfio.
- Mae'r troseddwr yn gwybod, neu dylai wybod, y bydd ei ymddygiad yn cael effaith ddifrifol ar y dioddefwr (e.e., peri iddynt ofni trais neu effeithio'n sylweddol ar weithgareddau dydd i ddydd).
- Ers mis Ebrill 2023, mae'r drosedd yn berthnasol hyd yn oed os nad yw'r dioddefwr a'r troseddwr yn byw gyda'i gilydd.

Mae hefyd yn bwysig cofio bod y rhan fwyaf o ymchwil hefyd yn awgrymu bod cam-drin domestig yn digwydd ym mhob rhan o gymdeithas waeth beth fo'u hil, diwylliant, cenedligrwydd, crefydd, rhywioldeb, anabledd, oedran, dosbarth neu lefel addysgol.

Mae'r diffiniad yn cynnwys digwyddiadau lle gall aelodau estynedig o'r teulu gydoddef neu gymryd rhan yn y patrwm o gam-drin e.e., priodas dan orfod, anffurfio organau

cenhedlu benywod a throseddau a gaiff eu rhesymoli fel cosbi menywod am ddod â chywilydd i'r teulu.

## Cysylltiad Personol

Ystyrir bod dau unigolyn 16 oed neu hŷn â chysylltiad personol os yw unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:

- Maent yn briod, neu wedi bod yn briod â'i gilydd.
- Maent yn bartneriaid sifil i'w gilydd, neu wedi bod yn bartneriaid sifil i'w gilydd.
- Maent wedi cytuno i briodi ei gilydd (p'un a yw'r cytundeb wedi'i derfynu ai peidio).
- Maent wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth sifil (p'un a yw'r cytundeb wedi'i derfynu ai peidio).
- Maent mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd, neu wedi bod.
- Mae gan y ddau ohonynt, neu bu ganddynt, berthynas rianta mewn perthynas â'r un plentyn.
- Maen nhw'n perthyn (fel y'i diffinnir yn y Ddeddf).

## Cam-drin Economaidd

Diffinnir cam-drin economaidd fel unrhyw ymddygiad sydd ag effaith andwyol sylweddol ar allu person arall i wneud y canlynol:

- Cael, defnyddio neu gadw arian neu eiddo arall (fel ffôn symudol, car, neu gartref), neu
- Cael nwyddau neu wasanaethau (fel bwyd, dillad, cyfleustodau fel gwresogi, neu drafnidiaeth).

Mae'r math hwn o gam-drin bellach wedi'i gydnabod yn gyfreithiol fel math o gam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr. Yn aml mae'n digwydd ochr yn ochr â mathau eraill o gam-drin, fel rheolaeth drwy orfodaeth, a gall gynnwys:

- Rheoli mynediad at incwm, cyfrifon banc, neu fudd-daliadau.
- Cyfyngu ar wariant neu orfodi'r dioddefwr i gyfiawnhau pob gwariant.
- Atal mynediad at hanfodion fel bwyd, dillad neu feddyginiaeth.
- Gorfodi rhywun i ddyled neu gronni dyled yn eu henw heb ganiatâd.

Er nad yw cam-drin economaidd yn drosedd ar ei phen ei hun, fe'i hystyrir o dan y drosedd o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, a dylid mynd i'r afael â hyn mewn ymatebion diogelu a chyfiawnder troseddol.

# Atodiad 2: GDPR/Rhannu Gwybodaeth/Galluedd Meddyliol

## CYDSYNIAD A DIOGELU DATA

Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 yn amddiffyn preifatrwydd personol ac yn cynnal hawliau unigolion.

Mae GDPR yn cynnwys chwe sail gyfreithlon ar gyfer rhannu gwybodaeth. Mae'r seiliau cyfreithlon ar gyfer prosesu wedi'u nodi yn Erthygl 6 o'r GDPR. Y rhai sy'n berthnasol i'r polisi hwn yw:

a) Cydsyniad: mae'r unigolyn wedi rhoi cydsyniad clir i chi brosesu eu data personol at ddiben penodol.

b) Rhwymedigaeth gyfreithiol: mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn i chi gydymffurfio â'r gyfraith.

c) Buddiannau hanfodol: mae'r prosesu yn angenrheidiol i ddiogelu bywyd rhywun.

d) Tasg gyhoeddus: mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn i chi gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer eich swyddogaethau swyddogol, ac mae gan y dasg neu'r swyddogaeth sail glir yn y gyfraith.

Dylid ceisio cydsyniad ym mhob achos lle mae'n ddiogel gwneud hynny. Lle na ellir cael cydsyniad, gellir rhannu gwybodaeth heb gydsyniad, o dan Ddeddf Diogelu Data 2018, lle mae'r unigolyn yn blentyn neu'n oedolyn sy'n wynebu risg; os yw'r amgylchiadau'n ei gyfiawnhau, lle mae hynny er budd sylweddol y cyhoedd, a bod rhannu'n angenrheidiol at ddiben:

i. amddiffyn unigolyn rhag esgeulustod neu niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol; neu

ii. amddiffyn lles corfforol, meddyliol neu emosiynol unigolyn

Mae Erthygl 8 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn nodi bod gan bawb yr hawl i barch at eu bywyd preifat a theuluol, ac na ddylai Awdurdod Cyhoeddus ymyrryd â'r hawl hon ac eithrio yn unol â'r gyfraith: -

a) Er budd diogelwch cenedlaethol

b) Diogelwch y cyhoedd

c) Llesiant economaidd y wlad

d) Atal anhrefn neu drosedd

e) Diogelu iechyd neu foesoldeb

f) Diogelu hawliau neu ryddid pobl eraill.

Dylai gweithwyr rheng flaen a gwirfoddolwyr bob amser rannu pryderon diogelu yn unol â pholisi eu sefydliad, fel arfer gyda'u rheolwr llinell neu arweinydd diogelu yn y lle cyntaf, ac eithrio mewn sefyllfaoedd brys. Cyn belled â nad yw gwneud hynny'n cynyddu'r risg i'r unigolyn, dylai'r aelod staff esbonio ei gyfrifoldeb i rannu'r pryder gyda'i reolwr.

Bydd angen i reolwyr wneud penderfyniadau ynghylch rhannu gwybodaeth ag asiantaethau allanol, gan gynnwys yr heddlu a'r awdurdod lleol. Efallai na fydd unigolion yn rhoi eu cydsyniad i rannu gwybodaeth ddiogelu am nifer o resymau. Er enghraifft, efallai y byddant yn ofni dial, efallai y byddant yn ofni colli rheolaeth, efallai nad ydynt yn ymddiried yn y gwasanaethau cymdeithasol na phartneriaid eraill, neu efallai y byddant yn ofni y bydd eu perthynas â'r camdriniwr yn cael ei niweidio. Gall rhoi sicrwydd a chymorth priodol, ynghyd â pherswadio’n ysgafn, helpu i newid eu barn ynghylch a yw'n well rhannu gwybodaeth.

Os bydd rhywun yn gwrthod ymyrraeth i'w cynorthwyo gyda phryder diogelu, neu'n gofyn nad yw gwybodaeth amdanynt yn cael ei rhannu â phartneriaid diogelu eraill, dylid parchu eu dymuniadau. Fodd bynnag, mae nifer o amgylchiadau lle gall yr ymarferydd ddiystyru penderfyniad o'r fath yn rhesymol, gan gynnwys y canlynol:

- nid oes gan y person y galluedd meddyliol i wneud y penderfyniad hwnnw – rhaid archwilio hyn yn iawn a'i gofnodi yn unol â’r Ddeddf Galluedd Meddyliol
- mae pobl eraill, neu gallent fod, mewn perygl, gan gynnwys plant
- gallai rhannu'r wybodaeth atal trosedd
- mae gan y camdriniwr honedig anghenion gofal a chymorth ac efallai eu bod nhw mewn perygl hefyd
- mae trosedd wedi’i chyflawni
- mae staff ynghlwm â’r mater
- mae gan y person y galluedd meddyliol i wneud y penderfyniad hwnnw, ond efallai eu bod dan orfodaeth neu’n cael eu gorfodi
- mae'r risg yn afresymol o uchel ac yn bodloni'r meini prawf ar gyfer atgyfeiriad i’r Gynhadledd Aml-asiantaeth Asesu Risg*,* fel y'i pennir gan rywun sydd wedi'i hyfforddi yn y DASH/DARA neu yn seiliedig ar farn broffesiynol.
- mae gorchymyn llys neu awdurdod cyfreithiol arall wedi gofyn am y wybodaeth.

Fodd bynnag, ni ddylid ceisio cydsyniad lle:

a) Byddai hynny'n rhwystro’r gallu i atal neu ganfod trosedd neu ddal troseddwr.

b) Byddai'n rhoi’r person dan sylw neu oedolion eraill mewn perygl o niwed.

c) Mae angen adroddiad brys, ac nid yw'n bosibl nac yn briodol ceisio cydsyniad, h.y., mewn achosion lle mai'r camdrinwyr honedig yw'r unig bobl a allai roi cydsyniad.

Mae gwersi a ddysgwyd o adolygiadau llofruddiaethau domestig yn datgelu bod methu â rhannu gwybodaeth hanfodol yn ffactor sy'n cyfrannu mewn llawer o achosion. Gall methiannau o'r fath arwain at gam-drin a niwed difrifol, ac mewn rhai achosion marwolaeth. Nid yw'r rheolau ynghylch rhannu gwybodaeth ddiogelu yn ymwneud ag os gallwch chi rannu data mewn gwirionedd, ond yn hytrach meddwl ddwywaith ynghylch sut rydych chi'n ei rannu.

Yn ogystal, mae yna adolygiadau wedi bod yn ddiweddar sy'n pwysleisio galluedd meddyliol a'r defnydd ohono weithiau i gyfiawnhau diffyg gweithredu mewn sefyllfaoedd penodol. Y 'neges' gyfredol yw bod yn rhaid i ymarferwyr ystyried y risgiau posibl o beidio â rhannu gwybodaeth a sicrhau eu bod yn cofnodi eu rhesymeg dros beidio â rhannu; ac yn strategol ac ar y rheng flaen, mae angen llawer o ofal wrth wneud hynny. Mae'n hanfodol bod ymarferwyr yn deall bod egwyddorion Diogelu Oedolion a Phlant yn cymryd blaenoriaeth dros gyfrinachedd.

Mae gan asiantaethau statudol gyfrifoldeb i weithredu i atal trosedd neu gam-drin plant ac oedolion sydd mewn perygl.

Os oes gan ymarferydd bryderon ynghylch lles yr oedolyn ac yn credu ei fod yn dioddef neu'n debygol o ddioddef cam-drin neu esgeulustod, yna rhaid iddo rannu'r wybodaeth gyda'r Awdurdod Lleol a/neu'r Heddlu os yw'n credu neu'n amau bod trosedd wedi'i chyflawni.

Os yw'r oedolyn sy'n wynebu risg yn gwrthod cytuno i atgyfeiriad gael ei wneud, a bod ganddo'r galluedd (yn unol â gofynion Deddf Galluedd Meddyliol 2005) i ddeall y risg, yn dilyn cwblhau asesiad risg yn ystod ymholiad diogel lle rydych chi'n fodlon nad ydynt yn cael eu bygwth nac o dan orfodaeth, yna dylid parchu dymuniadau a chofnodi'r penderfyniad. Fodd bynnag, os oes oedolion eraill sydd ag anghenion gofal a chymorth neu blant mewn perygl, yna dylid gwneud adroddiad i'r gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â'r rheini.

Fel y nodir yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005, cyfrifoldeb y sawl sy'n gwneud y penderfyniad yw sicrhau bod pob egwyddor o dan y ddeddf yn cael ei dilyn. Wrth ystyried cymhwyso Deddf Galluedd Meddyliol 2005, dylid rhoi sylw dyledus i God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

1. Rhaid tybio bod gan berson alluedd oni bai ei bod wedi'i sefydlu nad oes ganddo alluedd.
2. Ni ddylid trin person fel pe baent yn analluog i wneud penderfyniad oni bai bod pob cam ymarferol i'w helpu i wneud hynny wedi'u cymryd heb lwyddiant.
3. Ni ddylid trin person fel pe baent yn analluog i wneud penderfyniad dim ond oherwydd eu bod yn gwneud penderfyniad annoeth.
4. Rhaid i weithred a gyflawnir, neu benderfyniad a wneir, o dan y Ddeddf hon dros neu ar ran person sydd heb alluedd gael ei chyflawni neu ei wneud er eu budd gorau nhw.

5. Cyn cyflawni'r weithred, neu wneud y penderfyniad, rhaid ystyried a ellir cyflawni'r diben y mae ei angen ar ei gyfer yr un mor effeithiol mewn ffordd sy'n llai cyfyngol ar hawliau a rhyddid gweithredu'r person.

Serch hynny, mae angen gofal a diwydrwydd dyladwy hyd yn oed pan ystyrir bod gan y person alluedd ar faterion o'r fath a bod risgiau diogelu wedi'u nodi. Dylid ystyried a ddylid galw ar y Llys Gwarchod, o fewn ei gyfrifoldeb o ran awdurdodaeth gynhenid, fel y dyfarnwr terfynol mewn achosion cymhleth sy'n ymwneud â cham-drin domestig.

# Atodiad 3: Manylion Cyswllt

**Os oes angen sylw/presenoldeb yr heddlu neu sylw meddygol ar frys, ffoniwch: 999**

**Galwadau ymholiadau'r heddlu: 101**

**I roi gwybod am bryderon Oedolyn sy'n Wynebu Risg i'r Gwasanaethau Cymdeithasol (ffurflen Dyletswydd i Adrodd), cysylltwch â'r awdurdod lleol perthnasol:**

Blaenau Gwent
Ffôn: 01495 315700
E-bost: DutyTeamAdults@blaenau-gwent.gov.uk

Caerffili
Ffôn: 0808 100 2500
E-bost: IAAAdults@caerphilly.gov.uk

Torfaen
Ffôn: 01495 762200
E-bost: socialcarecalltorfaen@torfaen.gov.uk

Casnewydd
Ffôn: 01633 656656
E-bost: firstcontact.adults@newport.gov.uk neu pova.team@newport.gov.uk

Sir Fynwy
Ffôn: 01873 735492
E-bost: MCCadultsafeguarding@monmouthshire.gov.uk

**Manylion Cyswllt Gwasanaethau Arbenigol Gwent**

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn – i ddioddefwyr a gweithwyr proffesiynol 24/7, 365
Ffôn: 0808 80 10 800
Testun: 07860077333
E-bost: gwybodaeth@bywhebofn.cymru
Cysylltu â Byw Heb Ofn | LLYW.CYMRU

Dod o hyd i'ch gwasanaeth arbenigol VAWDASV lleol – Cymorth i Fenywod Cymru

BAWSO 01633 213213
www.bawso.org.uk

Cymorth i Fenywod Cyfannol 03300 564456

www.cyfannol.org.uk
info@cyfannol.org.uk

Ymgynghorwyr Cam-drin Domestig Annibynnol (IDVA) Gwent
gwentidavaservice@newport.gov.uk

Gwasanaethau Cymorth Trais Rhywiol Horizon 03300 564456
www.horizonsvs.org.uk
horizon@cyfannol.org.uk

Hourglass 0808 808 8141
www.wearehourglass.org/

Llamau
www.llamau.org.uk
safercaerphilly@llamau.org.uk

Mankind 0808 800 1170
www.mankind.org.uk/

Melo Cymru
https://www.melo.cymru/cy/llinellau-cymorth-a-chefnogaeth/

Llinell Gyngor i Ddynion 0808 8010327
Llinell Cam-drin Domestig i Ddynion | Men's Advice Line UK

Llinell Gymorth Genedlaethol ar gyfer Stelcio 0808 802 0300
www.suzylamplugh.org/pages/category/national-stalking-helpline

New Pathways 01633 250205
www.newpathways.org.uk

Gwasanaeth Cam-drin Domestig Phoenix 01495 291202
www.phoenixdas.co.uk

Respect 0808 801 0327
www.mensadviceline.org.uk/

Stori Cymru 01276 225555
www.storicymru.org.uk

Cymorth i Ddioddefwyr 0300 303 5638
www.victimsupport.org.uk

# Atodiad 3 – Asesu Risg a Llwybrau Atgyfeirio

Y categorïau risg cydnabyddedig a ddefnyddir gan Heddlu Gwent yw safonol, canolig ac uchel:

| | |
|---|---|
| Safonol | Nid yw tystiolaeth a dangosyddion risg cyfredol yn dangos y tebygolrwydd o achosi niwed difrifol h.y., nid oes unrhyw gynnydd yn y difrifoldeb na'r amlder. |
| Canolig | Mae dangosyddion adnabyddadwy o risg o niwed difrifol. Mae gan y troseddwr y potensial i achosi niwed difrifol ond mae'n annhebygol y bydd yn gwneud hynny oni bai bod newid yn yr amgylchiadau, er enghraifft methu â chymryd meddyginiaeth, colli llety, perthynas yn chwalu a chamddefnyddio cyffuriau neu alcohol. |
| Uchel | Mae dangosyddion adnabyddadwy o risg o niwed difrifol. Gallai'r digwyddiad posibl ddigwydd ar unrhyw adeg, a byddai'r effaith yn ddifrifol. Mae risg o niwed difrifol yn risg sy'n peryglu bywyd a/neu'n drawmatig a lle gellir disgwyl y bydd adfer ohono, boed yn gorfforol neu'n seicolegol, yn anodd neu'n amhosibl.<br><br>Yn ogystal, dylid ystyried cynnydd sylweddol yn nifrifoldeb neu amlder digwyddiadau fel risg uchel. Gall barn broffesiynol y swyddog Heddlu sy'n adolygu hefyd nodi achosion risg uchel. |

Rhaid i bob dioddefwr, boed wedi'i asesu'n Uchel, Canolig neu Safonol, dderbyn cyngor ar gynllunio diogelwch a diogelu. Dylid teilwra hyn i fod yn benodol i anghenion unigol y dioddefwr a dylai gynnwys atgyfeiriad at wasanaethau VAWDASV arbenigol lleol.

Mae sgoriau risg DARA fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Safonol | Ymddengys nad oes unrhyw batrwm o ymddygiad camdriniol, na rheolaeth o un person gan un arall. Nid yw tystiolaeth gyfredol yn dangos tebygolrwydd o achosi niwed difrifol. |
| Canolig | Ymddengys bod patrwm o gam-drin/rheoli un person gan berson arall a/neu drais corfforol sy'n digwydd yn aml. Mae gan y troseddwr y potensial i achosi niwed difrifol ond mae'n annhebygol y bydd yn gwneud hynny oni bai bod newid yn yr amgylchiadau, fel y dioddefwr yn ceisio gadael. |
| Uchel | Mae lefel eithafol o reolaeth dros un person gan berson arall a/neu drais corfforol difrifol iawn sy'n digwydd yn aml. Mae bygythiad difrifol o niwed i'r dioddefwr gan y troseddwr. Gallai'r digwyddiad posibl ddigwydd ar unrhyw adeg a byddai'r effaith yn ddifrifol. |